# Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 06-02(p1)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 17 Hydref 2002 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Adroddiad y Cadeirydd |

**Diben**

1. Rhoi'r newyddion diweddaraf ar faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor ar 26 Mehefin 2002.

   **Argymhelliad**

2. Yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

**Yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal**

3. Ceir y newyddion diweddaraf ar hynt yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal yn Atodiad 1.

   **Adolygiad o'r ymarfer recriwtio allanol peilot.**

4. Mae ymgynghorwyr wedi cael eu penodi i ymchwilio i lwyddiant yr ymarfer recriwtio allanol peilot a gynhaliwyd yn gynharach eleni. Ceir manylion eu rhaglen waith yn Atodiad 2. Cyflwynir adroddiad ar eu casgliadau i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2002**

**Atodiad 1**

**Calendr o ddigwyddiadau**

- 12 Gorffennaf - roedd y Gweinidog dros Lywodraeth Agored yn bresennol yn nigwyddiad Cyd-

Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Llandrindod a thraddododd araith ar gyflog cyfartal.

- 15 Gorffennaf - cyfarfu'r Cyd-weithgor. Rhoddwyd sylw i chwe mis nesaf yr ymgyrch a sut i fynd ati i werthuso'i llwyddiant. Comisiynwyd papur ar chwe mis nesaf yr ymgyrch ar gyfer y cyfarfod nesaf, sef diwedd Hydref.
- Aeth yr Uned Polisi Cydraddoldeb a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal â'r ymgyrch i'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol.
- 12 Medi - cynhaliwyd seminar ar y cyd gyda'r CBI a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal. Roedd chwech o gyflogwyr o'r sector preifat yn bresennol.
- 8 - 10 Hydref - mae gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chyngres yr Undebau Llafur, Cymru, stondin cyflog cyfartal yn arddangosfa Gweithgynhyrchu Cymru a'r Gorllewin yn y CIA, Caerdydd, yr wythnos hon.
- 5 Tachwedd - cynhelir seminar ar gyfer y sector cyllid a disgwylir i brif fanciau'r stryd fawr fod yn bresennol.
- Mewn ymateb i gais y Cyd-weithgor Cyflog Cyfartal i gynnal seminarau cyflog cyfartal ar gyfer y GIG, y sector addysg uwch a llywodraeth leol, trefnwyd tair seminar:

  - 21 Tachwedd - cynhelir seminar ar gyfer y sector addysg uwch yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod;

  - 27 Tachwedd - cynhelir seminar ar gyfer y GIG yn Llangamarch

  - 28 Tachwedd - cynhelir seminar llywodraeth leol yn Llangamarch

- 26 Tachwedd - achlysur lansio pecyn adolygu Cyflog Cyfartal y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn Garla Leisure yng Nghaerdydd. Bydd Barbara Roche AS, y Gweinidog dros Fenywod, yn bresennol.
- Brecwast i arweinwyr y byd busnes - bydd y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Cyd-weithgor yn cael eu gwahodd i'r brecwast.
- Bydd adroddiad terfynol ar yr 'Ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflogau' yn cael ei lunio erbyn diwedd yr ymgyrch ym mis Mawrth 2003.

**Atodiad 2**

## GWERTHUSO'R YMARFER RECRIWTIO AGORED PEILOT

### Diben

1. Rhoi'r newyddion diweddaraf ar hynt y gwaith o werthuso'r ymarfer recriwtio agored Gradd 7.

   **Cefndir**

2. Cwmni annibynnol o seicolegwyr galwedigaethol sy'n gwerthuso'r cynllun Gradd 7 – Cassin-Scott Associates Cyf.

   **Gwybodaeth am y cwmni**

3. Ymgynghorwyr ym maes seicoleg galwedigaethol yw Cassin-Scott Associates Cyf. (CSAL) sydd â phrofiad o werthuso arfau a systemau recriwtio ac asesu yn y Gwasanaeth Sifil. Maent yn gwneud hyn drwy adolygu'r deunyddiau a'r gweithdrefnau, cynnal cyfweliadau sensitif gyda'r rheini a oedd yn rhan o'r broses, a chynnal dadansoddiad ystadegol trylwyr o ganlyniadau'r asesiad a'r adborth gan ymgeiswyr. Maent yn arbenigo hefyd ym maes amrywiaeth a chyfle cyfartal ac mae hyn yn elfen allweddol yn y modd y maent yn mynd ati i werthuso'r cynllun Gradd 7. Mae 75% o'u cleientiaid yn eu defnyddio ar gyfer gwaith yn ymwneud â chyfle cyfartal.

### Y Broses Werthuso

***Cam 1 a 2***

4. Mae CSAL yn ystyried yr holl waith papur sy'n gysylltiedig â'r cynllun ac yn siarad â phobl sy'n rhan o'r broses gan gynnwys yr aseswyr mewnol, gweinyddwyr, ymgeiswyr a chwsmeriaid. Y brif elfen yn y broses werthuso yw gwerthuso'r elfennau cyfle cyfartal. Byddant yn ystyried a fu unrhyw achosion o wahaniaethu yn ystod y broses, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac a yw'r swyddi wedi'u teilwra ar gyfer mathau arbennig o bobl. Byddant hefyd yn ystyried y gwahaniaethau o ran dirnadaeth gwahanol grwpiau o bobl e.e. o ran tegwch.

***Cam 3 – Dadansoddi Meintiol/Ystadegol***

5. Bydd CSAL yn casglu data perfformiad ac yn cwrdd â phobl wrth eu gwaith i weld sut y maent yn

perfformio yn eu swyddi. Byddant yn ystyried y gwahaniaethau ym mherfformiad gwahanol grwpiau yn y gwahanol gamau (gan gynnwys sgôr yn y gwahanol gamau) a byddant yn ystyried y data a fydd yn deillio o hyn er mwyn gwneud dadansoddiad. Byddant hefyd yn adolygu unrhyw adborth i asesu gwahanol ddirnadaeth o fewn gwahanol grwpiau.

**Amserlen**

***Cam 1 a 2***

6. Ar hyn o bryd mae'r cwmni yn ystyried gwaith papur y cynllun ac yn cyfweld â'r rheini a oedd yn rhan o'r broses.

***Cam 3***

7. Mae'r cam hwn yn dechrau ym mis Ionawr 2003. Mae'r amserlen hon yn rhoi amser realistig i ymgeiswyr llwyddiannus ymgyfarwyddo â'u swyddi cyn eu bod yn cael eu gwerthuso, a dylai hynny, gobeithio, roi mwy o ddilysrwydd i'r wybodaeth a gaiff ei chrynhoi.

**Canlyniadau**

8. Ddiwedd Hydref, wrth ystyried y wybodaeth a gafodd ei chrynhoi, bydd CSAL yn llunio adroddiad interim o'r wybodaeth fydd ganddynt. Caiff papur yn amlinellu'r canfyddiadau ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Bydd hyn yn gymorth gyda'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i gwblhau'r strategaeth recriwtio'n derfynol. Gobeithir cytuno ar y strategaeth erbyn Chwefror, a'i rhoi ar waith o 1 Ebrill. Cyflwynir papur ar hynt y gwaith i'r Pwyllgor fis nesaf.

9. Flwyddyn ar ôl dechrau'r broses, bydd CSAL yn llunio adroddiad llawn gydag argymhellion a dadansoddiad ystadegol. Byddant hefyd yn darparu arfau gwerthuso i'r Tîm Recriwtio a Dethol (cronfa ddata gwerthuso, llawlyfr rhestr wirio yn cynnwys arferion gorau a rhai dogfennau safonol) a ddylai ei gynorthwyo gyda'r gwaith o werthuso unrhyw gynlluniau recriwtio agored yn y dyfodol.